

# Datgelu cyfraith teulu breifat: Nodweddion a ffactorau risg oedolion (Cymru)



**Mae'r crynodeb hwn yn amlygu prif ganfyddiadau adroddiad gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol— sef cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe— yn datgelu ffactorau risg economaidd gymdeithasol ac iechyd uwch menywod a dynion a oedd yn gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat yng Nghymru rhwng 2014/15 a 2019/20. Mae'r adroddiad yn defnyddio data cysylltiedig ar lefel y boblogaeth i archwilio nodweddion y rhai a oedd yn gysylltiedig â chais cyntaf i'r llysoedd teulu. Dyma'r trydydd mewn cyfres o adroddiadau sydd â'r nod o greu sylfaen dystiolaeth ar achosion cyfraith breifat plant yng Nghymru a Lloegr.**

#### **Awduron**

Dr Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn  
Dr Claire Hargreaves, Prifysgol Caerhirfryn  
Dr Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn  
Yr Athro Karen Broadhurst, Prifysgol Caerhirfryn;  
Cydgyfarwyddwr, Partneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol  
Rhodri Johnson, Prifysgol Abertawe  
Dr Lucy Griffiths, Prifysgol Abertawe  
Ashley Akbari, Prifysgol Abertawe  
Dr Steffi Doebler, Prifysgol Caerhirfryn  
Yr Athro Ann John, Prifysgol Abertawe

**Mae'r prif adroddiad a fersiwn Saesneg ar gael yn:**  
**<https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-adult-characteristics-and-vulnerabilities-wales>**

## Ysgrifennwyd yr adroddiad hwn mewn partneriaeth â'r canlynol



Population Data Science  
at Swansea University



### Cyfeiriad argymelledig

Cusworth, L. et al. (2021). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Nodweddion a ffactorau risg oedolion (Cymru)*.

Adroddiad cryno. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

### Ymwadiad

Ariannwyd y prosiect hwn gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid rhai ACT Nuffield na Sefydliad Nuffield, o reidrwydd.

# Cynnwys

- 1 Cyflwyniad
- 2 Canfyddiadau allweddol
- 3 Goblygiadau
- 4 Bylchau yn y data a chyfyngiadau

# Cyflwyniad

Mae achosion plant cyfraith breifat yn ymwneud ag anghytundebau neu anghydfodau, fel arfer rhwng rhieni ar ôl i berthynas chwalo (er y gallant gynnwys neiniau a theidiau neu aelodau eraill o'r teulu), yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer magu plentyn, fel ble dylai plentyn fyw a/neu bwy y dylai ei weld.

Ar hyn o bryd, mae'r sylfaen dystiolaeth i lywio polisi ac arfer yng Nghymru a Lloegr yn llai datblygedig o lawer ar gyfer cyfraith teulu breifat nag ar gyfer cyfraith teulu gyhoeddus, er bod dros ddwywaith yn fwy o achosion cyfraith breifat nag achosion cyfraith gyhoeddus (neu achosion amddiffyn plant) bob blwyddyn. Trwy ddefnyddio data ar lefel y boblogaeth, nod y gyfres *Datgelu Cyfraith Teulu Breifat*—yr ymchwiliwyd iddo gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluoedd, sef cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe—yw helpu i fynd i'r afael â'r diffyg hwn.

Dechreuodd adroddiadau blaenorol yn y gyfres ddatblygu proffil demograffig y teuluoedd sy'n rhan o achosion cyfraith breifat, gan gynnwys lefelau amddifadedd, patrymau'r gorchmynion y gwnaed cais amdanynt, a chyfran y ceisiadau mynych yng Nghymru a Lloegr.<sup>1</sup> Mae'r adroddiad y mae'r crynodeb hwn wedi'i seilio arno yn ymestyn y gwaith hwn drwy gynnig golwg fanwl ar anghenion a ffactorau risg oedolion mewn achosion cyfraith breifat cyn mynd i'r llys, sydd â'r nod o helpu i lywio polisi ac arfer, a galluogi diwygio system briodol y tu mewn a'r tu allan i'r llys.

1 Cusworth, L., Bedston, S., Trinder, L., Broadhurst, K., Pattinson, B., Harwin, J. et al. (2020). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.  
Cusworth, L., Bedston, S., Alrouh, B., Broadhurst, K., Johnson, R.D., Akbari, A. et al. (2021). *Uncovering private family law: Who's coming to court in England?* Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Dadansoddodd y tîm ymchwil ddata gofal iechyd (meddyg teulu a derbyniadau i'r ysbyty) a chyfraith breifat (Cafcass Cymru) dienw cysylltiedig ar gyfer 18,653 o oedolion a oedd yn gysylltiedig â'u cais cyfraith teulu breifat cyntaf, naill ai fel ymgeisydd neu ymatebwr, rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2020. Cymharwyd y canfyddiadau â grŵp o 186,470 o oedolion ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru a oedd â nodweddion demograffig tebyg, wedi'u cydweddu yn ôl oed, rhywedd, awdurdod lleol a chwintel amddifadedd.

- Roedd mwyafrif yr oedolion yng ngrŵp y garfan yn rhieni (94%), a oedd yn rhan o gais am orchymyn trefniadau plentyn yn bennaf.
- Roedd dynion yn fwy tebygol o fod yn ymgeiswyr (73%), a menywod yn fwy tebygol o fod yn ymatebwyr (68%) yn y cais cyntaf roeddent yn rhan ohono.
- Roedd 84% o'r oedolion yn rhan o gais rhwng dau riant; roedd gweddill yr achosion yn cynnwys un neu fwy o bobl nad oeddent yn rhieni.
- Roedd bron i draean o'r oedolion yn byw yn yr ardaloedd mwyaf amddifad yng Nghymru.

# Canfyddiadau allweddol

Gall yr astudiaeth hon ond cyflwyno materion a oedd yn hysbys i ymarferwyr gofal iechyd ac wedi'u codio mewn cofnodion cleifion yn ystod cyfnod yr astudiaeth. Fel y cyfryw, mae'r ffigurau a gyflwynir yn debygol o fod yn amcangyfrifon rhy isel ar gyfer y garfan a'r grŵp cymharu.

## Defnyddio gofal iechyd

Roedd gan oedolion a oedd yn rhan o geisiadau cyfraith breifat lefelau uwch o ddefnydd o wasanaethau iechyd yn ystod y flwyddyn cyn yr achos na'u cymheiriaid yn y grŵp cymharu—roedd y gwahaniaethau mwyaf ar gyfer gofal brys neu ofal heb ei gynllunio.

- Roedd tua chwarter (26%) o'r dynion a menywod mewn cais cyfraith breifat wedi mynychu adran achosion brys, o gymharu ag 16% o'r grŵp cymharu.
- Roedd 12% o fenywod a 7% o ddynion yn y grŵp carfan wedi'u derbyn i'r ysbyty ar frys—bron i ddwywaith yn fwy na chyfradd y grŵp cymharu (6% a 4% yn y drefn honno).

## Iechyd meddwl

**Roedd gan ddynion a menywod a oedd yn rhan o achosion cyfraith breifat lefelau uwch o broblemau iechyd meddwl na'u cymheiriaid.**

- Roedd gan fwy na 4 o bob 10 o fenywod (41.7%) a 3 o bob 10 o ddynion (30.1%) yn y grŵp carfan o leiaf un cysylltiad â'u meddyg teulu neu dderbyniad i'r ysbyty yn ymwneud ag iechyd meddwl yn y flwyddyn cyn y llys—mae hyn yn cynrychioli un a hanner gwaith y lefel ar gyfer dynion a menywod yn y grŵp cymharu.
- Roedd cyflyrau iechyd meddwl cyffredin rhwng dwywaith a hanner a theirgwaith yn fwy tebygol ymhlith oedolion a oedd yn rhan o gais cyfraith breifat. Yn y flwyddyn cyn yr achos, cafodd 12% o fenywod a 7% o ddynion ddiagnosis o iselder, a chafodd 13% a 9% ddiagnosis o orbryder, yn ôl eu trefn.
- Er mai dim ond niferoedd bach o'r oedolion a oedd yn rhan o achosion cyfraith breifat a oedd â diagnosis o afiechyd meddwl mwy difrifol, roedd cyffredinrwydd anhwylder deubegynol (ar gyfer dynion a menywod) a sgitsoffrenia (ar gyfer menywod yn unig) o leiaf ddwywaith yn uwch nag yn y grŵp cymharu.
- Roedd cyffredinrwydd anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywioigrwydd, anhwylderau ymddygiad, anhwylderau personoliaeth ac anhwylderau bwyta hefyd yn uwch ymhlith oedolion a oedd yn rhan o achosion cyfraith teulu breifat—roedd lefelau'n amrywio rhwng unwaith a hanner a ddwywaith a hanner yn fwy na'r rhai yn y grŵp cymharu.

## Defnyddio sylweddau

**Roedd defnydd hysbys o sylweddau—sy'n arwydd o ddefnydd problemus, niweidiol neu beryglus o alcohol a/neu gyffuriau—yn uwch ymhlith y grŵp o oedolion a oedd yn rhan o achosion cyfraith breifat.**

- Ar sail cofnodion cyfunol meddygon teulu a derbyniadau i'r ysbyty, cofnodwyd defnyddio sylweddau ar gyfer 2.6% o fenywod y garfan a 2.8% o'r dynion yn y flwyddyn cyn yr achos—dros deirgwaith yn fwy na chyfradd y menywod ac yn agos at ddwywaith yn fwy na chyfradd y dynion yn y grŵp cymharu. Mae'r gwahaniaeth cymharol hyd yn oed yn fwy amlwg ar gyfer cofnodion ysbyty o ddefnyddio sylweddau. Roedd



menywod yn y garfan cyfraith breifat bum gwaith a hanner yn fwy tebygol o fod â chofnod ysbyty ar gyfer defnyddio sylweddau, ac roedd dynion deirgwaith a hanner yn fwy tebygol na'r grŵp cymharu.

## Hunan-niweidio

**Roedd dynion a menywod mewn achosion cyfraith breifat yn fwy tebygol o fod wedi cael pwl o hunan-niweidio na'u cymheiriaid.**

- Yn y flwyddyn cyn yr achos llys, roedd gan 1.7% o fenywod ac 1.5% o ddynion o leiaf un pwl o hunan-niweidio wedi'i gofnodi ar eu cofnodion meddyg teulu—mae'r cyfraddau hyn rhwng pedair a phum gwaith yn uwch na'r grŵp cymharu.

## Trais a cham-drin domestig

**Yn y flwyddyn cyn yr achos, roedd 4% o fenywod yn y grŵp carfan wedi profi trais a cham-drin domestig a oedd wedi'i gofnodi ar eu cofnodion meddyg teulu—20 gwaith yn fwy na chyfradd y menywod yn y grŵp cymharu (0.2%).<sup>2</sup>**

- Er bod y gyfran yn isel iawn, roedd menywod yn y grŵp carfan hefyd 11 gwaith yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty mewn cysylltiad â thrais a cham-drin domestig (0.24%, o gymharu â 0.02%).

**Roedd dynion yn y grŵp carfan a'r grŵp cymharu yn llai tebygol na menywod o fod â thrais a cham-drin domestig ar eu cofnodion—ond roedd y gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn fwy nag ar gyfer menywod.**

- Roedd dynion yn y grŵp carfan bron i 30 gwaith yn fwy tebygol o fod wedi profi trais neu gam-drin domestig a oedd wedi'i gofnodi ar eu cofnodion meddyg teulu yn y flwyddyn cyn yr achos na'r rhai yn y grŵp cymharu (1.3% o gymharu â 0.05%), a bron i 17 gwaith yn fwy tebygol o gael eu derbyn i'r ysbyty mewn cysylltiad â thrais a cham-drin domestig (0.1% o gymharu â 0.007%).

<sup>2</sup> Sylwer y caiff yr un codau clinigol eu defnyddio yng nghofnodion meddygol y dioddefwr a'r cyflawnwr. Mae hyn yn golygu na allwn nodi o'r data a oedd yr oedolyn yn ddi-doddefwr neu'n gyflawnwr.

# Goblygiadau

**Mae'r ymchwil yn datgelu anghenion a ffactorau risg uwch menywod a dynion sy'n gysylltiedig â cheisiadau cyfraith breifat i'r llysoedd teulu yng Nghymru. Mae i hyn oblygiadau pwysig i'r system cyfiawnder teuluol, ac ar gyfer gwasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill.**

- Gallai problemau iechyd meddwl neu ddefnyddio sylweddau niweidio gallu unigolion i ymgysylltu â gwasanaethau cymorth, gan gynnwys gwasanaethau cyfryngu, y tu allan i'r llys. Gyda phwyslais cynyddol ar ddargyfeirio achosion cyfraith teulu breifat o'r llys—drwy annog defnyddio gwasanaethau cyfryngu a dulliau amgen eraill o ddatrys anghydfodau, yn bennaf—mae'n hanfodol bod llunwyr polisi yn rhoi sylw priodol i anghenion ehangach teuluoedd a sut i'w cynorthwyo'n well i ymgysylltu â gwasanaethau eraill. Bydd cynnig y Gweithgor Cyfraith Breifat i gyfeirio achosion heb bryderon diogelu at 'asesu, cyngor a chymorth i ddatrys problemau', yn hytrach nag at y llys teulu, yn mynnu ymglymiad gan wasanaethau iechyd meddwl, cyffuriau ac alcohol, a gweithwyr proffesiynol eraill, os yw am ddatrys anghytundebau ac anghydfodau yn ymwneud â threfniadau i blant yn llwyddiannus.<sup>3</sup>
- Bydd angen i unrhyw ymateb gan y gwasanaeth cyfraith teulu ystyried y ffordd orau i nodi problemau iechyd meddwl neu rai'n ymwneud â defnyddio sylweddau yn gynnar. Ond nid yw nodi problemau ar ei ben ei hun yn ddigon. Mae angen gwasanaethau y gellir cyfeirio teuluoedd atynt hefyd. Felly, mae integreiddio'r llys teulu â gwasanaethau iechyd cyhoeddus ehangach yn dyngedfennol.

<sup>3</sup> Y Gweithgor Cyfraith Breifat. (2019). A review of the child arrangement programme [PD12B FPR 2010]. Report to the President of the Family Division. Llundain: Uchel Lys Barn.

Y Gweithgor Cyfraith Breifat. (2020a). Private law: Family disputes - the time for change, the need for change, the case for change. Second report to the President of the Family Division. Llundain: Uchel Lys Barn.

Y Gweithgor Cyfraith Breifat. (2020b). Private Law Advisory Group final report. Llundain: Uchel Lys Barn.

- Gall prosesau'r llys fod yn frawychus ac achosi straen mewn unrhyw amgylchiadau, ond i unigolion sydd â ffactorau risg ychwanegol, gallai'r profiadau hyn gael eu gwaethygu. Mae angen ystyried goblygiadau hyn i oedolion a'u plant, a sut y gallai system wedi'i hailddylunio leihau'r effaith hon.
- Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn cefnogi ymchwil flaenorol o ran amlygu cam-drin domestig fel mater sylweddol mewn achosion cyfraith breifat. Mae rôl meddygon teulu a staff mewn ysbytai o ran amlygu a chofnodi trais a cham-drin domestig yn gywir—a chyfeirio dioddefwyr a chyflawnwyr at wasanaethau cymorth—yn hollbwysig.

**Gallai ymchwil bellach helpu i daflu goleuni ar anghenion y rhai sy'n gysylltiedig â cheisiadau cyfraith breifat, a dylunio gwasanaethau ar eu cyfer.**

- Mae angen ymchwilio i anghenion iechyd a ffactorau risg ar hyd achosion ac ar eu hôl (gan gynnwys ceisiadau dilynol a chroesgeisiadau, a deilliannau achosion), yn ogystal ag anghenion y plant dan sylw.
- Mae'n bwysig cofio bod oedolion sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat yn grŵp amrywiol; mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn bwriadu archwilio anghenion gwahaniaethol defnyddwyr gwahanol o'r llysoedd—rhieni a'r rhai nad ydynt yn rhieni sy'n gwneud cais am gysylltiad neu breswyliaeth ar ôl gwahanu; y rhai sy'n gwneud cais am orchmynion ansafonol, fel gorchmynion mater penodol neu gamau gwaharddedig; ac oedolion sy'n gysylltiedig â cheisiadau sy'n cynnwys dau neu dwy o ymgeiswyr ac/neu ymatebwyr.

Mae bwlch o hyd yn y data, ac felly'r dadansoddiad dilynol yn ymwneud ag ethnigrwydd—mae angen gwaith pellach i lenwi'r bwlch hwn o ran casglu data yn y dyfodol a cheisio cysylltu â setiau data eraill, a allai gofnodi ethnigrwydd yn well, â data Cafcass a Cafcass Cymru.

Mae'r adroddiad llawn, gan gynnwys manylion am fethodoleg yr astudiaeth (ffynonellau data, proses ddethol y garfan a'r grŵp cymharu, mesurau a phrosesau dadansoddi) ar gael yn:

<https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-adult-characteristics-and-vulnerabilities-wales>

# Bylchau yn y data a chyfyngiadau

Mae'r awduron yn cydnabod y cyfyngiadau canlynol.

- Mae astudiaethau sydd wedi'u seilio ar ddata gweinyddol wedi'u cyfyngu, o reidrwydd, gan gwmpas ac ansawdd y data sydd ar gael, a gesglir at ddibenion nad ydynt yn ymwneud ag ymchwil yn bennaf. Mae cronfa ddata Cafcass Cymru yn cofnodi graddau ei gysylltiad ag achos, sy'n aml yn dod i ben yn y gwrandawriad cyntaf mewn cyfraith breifat, oni bai bod pryderon ynglŷn â lles plentyn a bod y llys wedi cyfarwyddo gwaith pellach neu wedi penderfynu penodi gwarcheidwad plant dan 16.4 y Rheolau Trefniadaeth Teulu. Yn ogystal, nid yw'r ffynhonnell data'n cofnodi'n uniongyrchol â phwy mae plentyn yn byw adeg gwneud cais, na ph'un a oes ystyriaethau diogelu, fel cam-drin domestig.
- Mae proffilio demograffig wedi'i gyfyngu gan argaeledd data ar nodweddion demograffig. Er enghraifft, nid yw data Cafcass Cymru na'r data iechyd a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon yn cofnodi ethnigrwydd na chrefydd.
- Mae data Ymarfer Cyffredinol Hydredol Cymru (WLGP) yn cynnwys cofnodion meddyg teulu ar gyfer cleifion sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu mewn tuag 80% o bractisiau sy'n cyflenwi data i Fanc Data SAIL. Fel y cyfryw, nid oedd gwybodaeth am fesurau yn seiliedig ar feddygon teulu ar gael ar gyfer pob oedolyn yn y garfan neu'r grŵp cymharu. Cyfrifwyd mesurau gan ddefnyddio'r un dull ar gyfer y ddau grŵp, felly mae'r cymariaethau'n ddilys o hyd, er yr argymhellwn y dylai unrhyw ddadansoddiadau manylach ymchwilio i hyn ymhellach.

- Mae'r astudiaeth hon yn adrodd ar broblemau iechyd meddwl, hunan niweidio, defnyddio sylweddau a phrofi trais a cham-drin domestig sy'n hysbys i ymarferwyr gofal plant ac wedi'u codio mewn cofnodion cleifion yn ystod cyfnod yr astudiaeth yn unig; o ganlyniad, ni allwn amcangyfrif nac adrodd ar gyflyrau neu ffactorau risg heb eu datgelu, heb eu cofnodi neu a oedd yn bodoli eisoes. Felly, disgwylir i'n ffigurau fod yn danamcangyfrif o'r gwir nifer o oedolion â'r anhwylderau neu'n anghenion hyn.
- Trwy fwriad, mae dadansoddiadau'n ddisgrifiadol ac yn cynnwys ystod eang o fesurau i ddechrau creu darlun o anghenion a ffactorau risg yr holl oedolion sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith teulu breifat. Mae angen ymchwil bellach i ddeall anghenion unigol a chyd-ddigwyddiadol mathau gwahanol o ddefnyddwyr y llysoedd. Byddai hyn yn taflu mwy o oleuni ar yr hyn a allai wahaniaethu rhwng proffiliau defnyddwyr untro, mynych a lluosog, a fydd yn galluogi amlygu a rheoli materion yn gynharach a all arwain at achosion yn dychwelyd i'r llys ar fwy nag un achlysur.

# Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (ACT Nuffield) yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant drwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Trwy gwmpasu cyfraith gyhoeddus a phreifat, mae ACT Nuffield yn darparu data ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn llysoedd teulu.


Sefydlwyd ACT Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sydd â chenhadaeth i wella lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny ym meysydd addysg, lles a chyfiawnder yn bennaf. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-gyllidwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

## Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, gyda Cafcass a Cafcass Cymru yn rhanddeiliaid annatod. Caiff ei hariannu gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

## Banc Data SAIL

Mae data Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael o'r Banc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddiennw Ddiogel (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, Abertawe, y DU, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol i Gymru. Mae'n rhaid i bob cynnig i ddefnyddio data SAIL gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: [www.saildatabank.com/application-process](http://www.saildatabank.com/application-process)



Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2021  
100 St John St, London EC1M 4EH T: 020 7631 0566  
Elusen gofrestredig 206601  
[nuffieldfjo.org.uk](http://nuffieldfjo.org.uk) | @NuffieldFJO  
[www.nuffieldfoundation.org](http://www.nuffieldfoundation.org) | @NuffieldFound